Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales




Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth

## Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF): Echel Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni


Fersiwn: 3.0 Medi 2023


Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys


Cynnwys 3

Rhestr Termau 4

Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi 6

Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol 7

Amcan Penodol 3.1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) ..... 8

Amcan Penodol 3.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) ..... 9

Amcan Penodol 3.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 3.2 (Dwyrain Cymru) ..... 10

Diffiniadau o Ddangosyddion 11

Nifer y prosiectau peilot a gwblheir ..... 12

Cynlluniau ynni cymunedol ..... 13

Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni ..... 14

Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd ..... 15

Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni ..... 16

Gostyngiad amcangyfrifedig mewn nwyon tŷ gwydr ..... 17

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Busnes | Sefydliad sy'n cynhyrchu cynhyrchion neu wasanaethau i ddiwallu anghenion y farchnad er mwyn bod yn broffidiol. Gall y ffurf gyfreithiol ar fusnes amrywio (personau hunangyflogedig, partneriaethau, ac ati.) [1] |
| Cymorth Gwasanaethau Cynghori | Ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant ym maes trosglwyddo gwybodaeth, caffael, diogelu a defnyddio asedau anniriaethol, defnyddio safonau a rheoliadau sy'n eu hymgorffori.[2] |
| Microgynhyrchu | Y defnydd a wneir ohono i gynhyrchu trydan nad yw'n fwy na 50KW[3] |
| Cynllun | Cynllun, trefniadaeth neu drefniant systematig i gyflawni'r amcanion a nodir |
| Safle | Ardal benodol y gellir ei nodi neu le/gofod ffisegol sy'n berthnasol i'r prosiect. |
| Gwasanaethau Cymorth | Darparu swyddfeydd, cronfeydd data, llyfrgelloedd, ymchwil i'r farchnad, labordai, gwasanaethau labelu ansawdd, profi ac ardystio at ddiben datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau mwy effeithiol.[2] |
| BBACH | Yn unol ag argymhelliad diffiniedig 2003/362/CE Categori o ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro, a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn ewro.<br>Gall BBaChau fod yn fusnesau ymreolaethus, yn fusnesau partner neu'n fusnesau cysylltiedig. Ceir canllawiau ar y diffiniad o'r categorïau hyn ac ar gyfrif pennau a throsiant yn: http://ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition/index_en.htm |

1 Cysyniadau ac Argymhellion ERDF CE Mawrth 2014

2 Fframwaith C(2014) 3282 ar gyfer cymorth gwladwriaethol ar gyfer ymchwil a datblygu ac arloesedd

3 A 82 Deddf Ynni 2004

| | |
|---|---|
| Menter Gymdeithasol | Menter sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, y caiff ei gwargedion eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y fenter neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei llywio gan yr angen i wneud yr elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr a pherchenogion. |

# Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi

| | | |
|---|---|---|
| Amcanion Thematig | 4. Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector | |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 4a) | Hyrwyddo'r broses o gynhyrchu a dosbarthu ynni o ffynonellau adnewyddadwy | AP 3.1<br><br>AP 3.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 4c) | Cefnogi effeithlonrwydd ynni, rheoli ynni craff a'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn seilweithiau cyhoeddus, gan gynnwys adeiladau cyhoeddus, a'r sector tai | AP 3.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)<br><br>AP 3.2 (Dwyrain Cymru) |

## Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol

Bwriedir i'r dangosydd canlyniadau gynrychioli'r newid a ragwelir o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad(au) sy'n gysylltiedig â phob amcan penodol. Nodir y rhesymeg dros ddewis y dangosyddion canlyniadau a thargedau rhaglenni yn y priod Raglenni Gweithredol.

Dylai gweithrediadau, yn unol â thablau rhesymeg eu gweithrediad, ganolbwyntio ar eu cyfraniad at y dangosydd canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol.

Dylai'r dewis o ddangosyddion allbwn fel y'u diffiniwyd yn y canllawiau hyn, ddeillio o'r rhesymeg ymyrryd ar gyfer pob gweithrediad a bod yn gyson â'r priod ddangosyddion canlyniadau, amcanion penodol a blaenoriaethau buddsoddi.

Bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos y cysylltiadau rhwng nodau ac amcanion, gweithgareddau a dangosyddion. Cytunir ar y dystiolaeth a ddarperir a chaiff ei nodi yn y Cynllun Busnes.

***Data Monitro***:

Bydd angen darparu data i ategu hawliadau.

Dylai buddiolwyr gasglu data monitro ***ychwanegol*** er mwyn ei gwneud yn bosibl i effeithiolrwydd ac effaith y gweithrediad gael ei werthuso.

Dylid lanlwytho'r data drwy WEFO ar-lein fel rhan o'r broses hawlio. Mae templed ar gyfer darparu data ar gael ar wefan WEFO.

Mae'r Rhaglenni Gweithredol ar gael yn: https://llyw.cymru/rhyngwladol-ue

Mae'r rhain yn nodi nodau cyffredinol y rhaglenni y bydd y gweithrediadau yn cael eu cynnal oddi mewn iddynt ac mewn llawer o achosion byddant yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau a ragwelir o dan bob AP.

Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer ymholiadau a chyngor:

RME.MAILBOX@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales Ymholiadau ynglŷn â Themâu Trawsbynciol

WEFOverifications@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag archwilio a thystiolaeth

Os bydd ymholiad yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad cymeradwy, yna dylid cysylltu â'r swyddog datblygu prosiect fel y pwynt cyswllt cyntaf.

## Amcan Penodol 3.1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

| Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni'r môr. | | |
|---|---|---|
| | | Targedau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) |
| Dangosydd Canlyniadau | Cynhwysedd gosodedig mewn tonnau a llanw (MW) | 20 ychwanegol[4] |
| Dangosyddion Allbwn | Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni | 8 |
| | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | 6 |

4 Digest of UK Statistics (tabl 6.4)

## Amcan Penodol 3.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

| Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir | | |
|---|---|---|
| | | Targedau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) |
| Dangosydd Canlyniadau | Nifer y safleoedd[5] sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (heb gynnwys ffotofoltäig) | + 37[6] |
| Dangosyddion allbwn | Nifer y prosiectau peilot a gwblheir | 4 |
| | Cynlluniau Ynni Cymunedol | 3 |

5 Nid yw'r AP yn cynnwys microgynhyrchu. Mae'n rhaid bod safleoedd yn cynhyrchu trydan.

6 Adroddiad DUKES (Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd) ar Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr. Wedi'i fesur fel cynnydd uwchlaw'r ffigur llinell sylfaen yn yr AP.

## Amcan Penodol 3.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 3.2 (Dwyrain Cymru)

| Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd | | | |
|---|---|---|---|
| | | Targedau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Targedau Dwyrain Cymru |
| Dangosydd canlyniadau | Gradd effeithlonrwydd ynni cartrefi sy’n wynebu tlodi tanwydd difrifol | + 10%[7] llinell sylfaen | + 10%[8] llinell sylfaen |
| Dangosyddion allbwn | Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni | 2,069 | 765 |
| | Gostyngiad amcangyfrifedig mewn nwyon tŷ gwydr | 5,000 | 1,000 |

7 Cynyddu perfformiad ynni o 1 radd Tystysgrif Perfformiad Ynni

## Diffiniadau o Ddangosyddion

**Nifer y prosiectau peilot a gwblheir**

Prosiect sydd wedi'i gynllunio fel treial sydd â'r nod o brofi dull penodol i grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfynedig; y bwriedir iddo ddenu gweithgarwch yn y maes/disgyblaeth neu'r sector yn y dyfodol. [8]

Gellir tybio bod prosiect peilot wedi'i gwblhau pan fydd asesiad technegol wedi'i gwblhau.

**Uned:**

Cynlluniau peilot wedi'u cwblhau

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylid darparu'r data ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Tystiolaeth llinell sylfaen – prawf cysyniad.

Cytundeb cydweithredu

Tystiolaeth o broses gaffael, manyleb dechnegol

Tystiolaeth bod yr asesiad o'r cynllun peilot a'r asesiad technegol wedi'u cwblhau

Gwerthuso

8 (DCLG ERDF 2007-13 Diffiniadau o Allbwn)

**Cynlluniau ynni cymunedol**

Camau cydweithredol cymunedol i leihau, prynu, rheoli a chynhyrchu ynni.

Mae'r gweithgareddau a ragwelir o dan y diffiniad hwn yn cynnwys: meithrin gallu grwpiau lleol; cyngor ac arweiniad ar sefydlu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy bach; cefnogi cydweithio â datblygwyr ar gynlluniau a gefnogir gan y gymuned; buddsoddiadau sydd wedi'u teilwra i ymdrin â'r rhwystrau i gael cyllid ar gyfer cynlluniau bach a chymunedol gan gefnogi'r newid i garbon isel a datblygu a gweithredu strategaethau carbon isel sy'n cefnogi dangos buddiannau ar gyfer ardal ddaearyddol benodol.

**Uned:**

Nifer y cynlluniau

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Cynllun Busnes, cylch gorchwyl neu erthyglau cymdeithasu sy'n dangos y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy.

Gwerthusiad i ddangos y berthynas rhwng yr amcanion a'r nodau ac effaith y gweithrediad a ariennir.

**Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni**

Cynlluniau ar gyfer gosod a chomisiynu/defnyddio dyfeisiau cynhyrchu trydan tonnau, llanw ac adnewyddadwy rhagfasnachol. Mae'r pwyslais ar baratoi'r tir ar gyfer buddsoddi preifat hirdymor yn y sector.

Buddsoddiadau a gwaith paratoi ar seilwaith er mwyn dileu rhwystrau, lleihau risgiau ac ennyn cymaint o hyder â phosibl ymhlith buddsoddwyr. Dylai'r buddsoddiadau hyn anelu at annog y defnydd o ddyfeisiau morol rhagfasnachol ar gyfer gwaith profi ac arddangos.

Er enghraifft: paratoi safle, cyfleusterau ar y tir, cysylltiadau, mynediad, arolygon.

**Uned:**

Nifer y Cynlluniau

**Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd**

Bwriedir i'r dangosydd hwn fesur gweithgareddau i gefnogi'r defnydd o dechnoleg ynni morol (llanw, tonnau a'r gwynt).

Nodir y mathau o gamau a gefnogir o dan y dangosydd hwn yn y Rhaglen Weithredol.

Dylai Cynlluniau Busnes amlinellu'r gweithgarwch profi.

**Uned:**

Nifer

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ôl cwblhau'r broses brofi.

Llinell sylfaen: prawf cysyniad.

Astudiaeth o'r effaith amgylcheddol; dogfennau sy'n dangos tystiolaeth o'r broses gaffael

Tystiolaeth o gontract ar gyfer gwaith a thaliadau ardystiedig a awdurdodwyd.

Tystiolaeth ddogfennol o gwblhau'r broses brofi

**Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni**

Nifer y cartrefi sydd â gwell dosbarthiad ynni o ganlyniad uniongyrchol i gyllid ERDF[9].

Ni chaniateir cynnwys gwaith nas ariennir gan ERDF.

Dylai'r cynnydd mewn perfformiad ynni fod o un radd.

**Uned:**

Nifer

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Tystiolaeth llinell syllfaen o ddosbarthiad ynni (Tystysgrifau Perfformiad Ynni)

Tystiolaeth o'r gwaith a wnaed; dogfennau tendr, dyfarnu contract.

Tystiolaeth o gwblhau gwaith

Tystiolaeth o ddosbarthiad ynni diwygiedig (Tystysgrifau Perfformiad Ynni).

9 Cyfarwyddeb 2010/31/EU

**Gostyngiad amcangyfrifedig mewn nwyon tŷ gwydr**

Mae'r dangosydd hwn yn gymwys i ymyriadau sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ac mae'n orfodol lle y defnyddir 'nifer y cartrefi â gwell defnydd o ynni'.

Bydd y dangosydd yn dangos cyfanswm yr amcangyfrif o ostyngiad blynyddol erbyn diwedd y cyfnod, ond nid cyfanswm y gostyngiad drwy gydol y cyfnod.

Yn achos cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar faint o ynni cynradd a gynhyrchir gan gyfleusterau sy'n cael cymorth mewn blwyddyn benodol (naill ai blwyddyn ar ôl cwblhau'r prosiect neu'r flwyddyn galendr ar ôl cwblhau'r prosiect). Tybir bod ynni adnewyddadwy yn niwtral o ran nwyon tŷ gwydr a'i fod yn disodli ynni anadnewyddadwy a gynhyrchir. Amcangyfrifir effaith ynni anadnewyddadwy ar nwyon tŷ gwydr drwy gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr aelod-wladwriaethau fesul uned o ynni anadnewyddadwy a gynhyrchir.

Yn achos mesurau arbed ynni, mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar faint o ynni cynradd a arbedir mewn blwyddyn benodol gan weithrediadau sy'n cael cymorth (naill ai blwyddyn ar ôl cwblhau prosiect neu'r flwyddyn galendr ar ôl cwblhau prosiect). Tybir bod ynni a arbedir yn disodli ynni anadnewyddadwy a gynhyrchir. Amcangyfrifir effaith ynni anadnewyddadwy ar nwyon tŷ gwydr drwy gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr aelod-wladwriaethau fesul uned o ynni anadnewyddadwy a gynhyrchir.

Mae cyfrifiadau ar gyfer mesurau arbed ynni yn seiliedig ar dystysgrif perfformiad ynni adeiladau (gweler Erthygl 12.1.b o Gyfarwyddeb 2010/31/UE). Caiff gwerth ei gyfrifo o'r tystysgrifau ynni a roddir cyn ac ar ôl gosod y mesurau.

**Uned:**


Yr hyn sy'n cyfateb i dunelli CO2

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylai tunelli o garbon a arbedir gael eu mesur drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Adroddiadau Cwmnïau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC)








**Mwy o wybodaeth:**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

**Desg Gymorth Ymholiadau    0845 010 3355**

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government